



## Cenedl Noddfa — gwireddu'r weledigaeth

### Taith mewn saith cam

#### Cyflwyniad

Galwodd maniffesto Cynghrair Ffoaduriaid Cymru ar gyfer etholiad Senedd 2016, [Noddfa mewn Saith Cam](#), ar Lywodraeth Gymru nesaf i fabwysiadu'r nod o wneud Cymru yn Genedl Noddfa gyntaf y byd. Rydym yn falch ac yn galonogol o'r ymateb a gafodd y weledigaeth hon; gyda phleidiau gwleidyddol, cymunedau, a phobl sy'n ceisio noddfa eu hunain yn uno o amgylch y syniad y dylai Cymru fod yn lle y gall pobl sy'n ceisio noddfa fod yn ddiogel a chwarae rhan lawn yn eu cartref newydd.

Yn 2019, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r nod yn swyddogol a chyhoeddi ei [chynllun gweithredu Cenedl Noddfa](#). Roedd hwn yn gam i'w groesawu ac yn garreg filltir arwyddocaol wrth ddangos yr hyn y gellir ei wneud gyda phwerau datganoledig, tra hefyd yn darparu gwrthbwynt pwerus i sylw polisi a'r cyfryngau ynghylch mewnfudo a lloches sy'n aml yn negyddol iawn. Fodd bynnag, mae bwlch sylweddol o hyd rhwng y weledigaeth hon a realiti bywyd bob dydd i bobl sy'n ceisio noddfa, sy'n parhau i wynebu rhwystrau rhag diwallu rhai o'u hanghenion hanfodol, cyrchu gwasanaethau cyhoeddus, a'r gallu i gyfrannu'n llawn wrth ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru. **Mae angen i ni wireddu'r weledigaeth.**

Mae'r Maniffesto hwn yn nodi ein galwad i Lywodraeth nesaf Cymru i ailddatgan yr ymrwymiad i weledigaeth Cenedl Noddfa, ac adeiladu ar y cynllun cychwynol i'w wireddu, yn seiliedig ar y camau a amlinellwn. Dylai hyn gynnwys datblygu strategaeth newydd gyda chamau gweithredu clir, cyllideb benodol, ymrwymadau trawsadrannol, amserlenni a fframwaith monitro a gwerthuso clir. Yn hanfodol, rhaid iddo gynnwys ymrwymiad ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod pawb yn gallu cyrchu'r holl wasanaethau cyhoeddus pan fydd eu hangen arnynt.

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen, ac mae effeithiau pandemig COVID-19 wedi datgelu a dyfnhau llawer o'r problemau gyda'n system lloches a mewnfudo. Mae hyn wedi cynnwys amddifadedd o fewn y system loches; penderfyniadau araf ac o ansawdd gwael gan y Swyddfa Gartref; amodau ofnadwy mewn llety lloches a'r elyniaeth a'r annynoldeb tuag at bobl sy'n gwneud teithiau enbyd i gyrraedd y DU. Rydym wedi gweld y weledigaeth o Genedl Noddfa yn cael ei thanseilio'n weithredol gan Lywodraeth y DU trwy agor llety cwbl anaddas yn y barics ym Mhenalun heb unrhyw ymgysylltu nac ymgynghori ymlaen llaw. Mae hyn i gyd wedi digwydd yn erbyn cefndir o argyfwng hinsawdd sy'n gwaethygu, ansefydlogrwydd parhaus mewn sawl rhan o'r byd ac chyfrif byd-eang â hiliaeth a chymynroddion imperialaeth.

Mae mudiad Mae Bywydau Du o Bwys (*Black Lives Matter*) wedi pwysleisio'r angen i sicrhau cydraddoldeb i'r rheini o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Rydym yn croesawu datblygiad Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru, ond rhaid cydnabod, heb gefnogi'r rheini o gefndiroedd ffoaduriaid a mudol, na allwn fyth obeithio cael Cymru wirioneddol gyfartal.

Dros y blynyddoedd i ddod, bydd pobl ledled y byd yn parhau i gael eu gorfodi o'u cartrefi oherwydd rhyfel, artaith, erledigaeth a thrychinebau naturiol, i chwilio am ddiogelwch a bywyd gwell iddyn nhw eu hunain a'u plant. Rhaid i Gymru, a'r DU, barhau i gynnal yr hawl i geisio lloches, wrth wneud yr hyn a allwn i fynd i'r afael â'r achosion sy'n gorfodi pobl o'u cartrefi.

Tra bod polisi mewnfudo a lloches yn parhau i fod yn gyfrifoldeb San Steffan, mae yna bwerau datganoledig sylweddol y gellir ac y dylid eu defnyddio i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn yr hawl i geisio noddfa, a sicrhau bod y bobl sy'n cael eu gorfodi i ffoi a'r cymunedau sy'n eu croesawu yn cael eu cefnogi.

Mae'r maniffesto hwn ar ffurf taith, yn seiliedig ar symudiad unigolyn trwy'r camau o geisio a sicrhau noddfa. Ar hyd y ffordd mae'n darparu map ffordd i Lywodraeth nesaf Cymru wella'r daith honno ar bob cam, a gwireddu'r weledigaeth o Genedl Noddfa.

## **Nodyn ar derminoleg**

Gall terminoleg yn y maes hwn fod yn anghyfarwydd neu'n ddryslyd i lawer o bobl, dyma rai diffiniadau.

Yn y maniffesto hwn rydym yn defnyddio **pobl sy'n ceisio noddfa** i gyfeirio at bawb sydd wedi symud i wlad newydd sy'n ceisio amddiffyniad, gan gynnwys ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches.

## **Ceisiwr lloches**

Ceisiwr lloches yw unigolyn sydd wedi gwneud cais am loches gan Lywodraeth y DU ac sy'n aros am benderfyniad terfynol ar y cais hwn, gan gynnwys y rhai a allai fod wedi cael gwrthod eu cais i ddechrau.

## **Ffoadur**

Ffoadur yw rhywun sydd wedi cael ei gydnabod yn swyddogol gan Lywodraeth y DU fel unigolyn sydd â seiliau dilys dros amddiffyniad a phreswyllo yn y DU. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi cael eu hadnabod ac wedi cael taith ddiogel o wledydd eraill, yn ogystal â chyn-geiswyr lloches sydd wedi derbyn penderfyniad cadarnhaol ar eu cais.

## **Mudwr**

Mudwr yw unrhyw un sydd wedi symud i wlad arall sy'n wahanol i le eu genedigaeth neu'r wlad lle maen nhw'n dal dinasyddiaeth. Gall hyn fod am lawer o resymau, gan gynnwys gwaith, ffoi rhag erledigaeth neu ymuno ag anwyliaid, ac mae'n cynnwys yr holl ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches.

## **Dim hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF)**

Gall unigolyn gael amod 'dim hawl i gyllid cyhoeddus' yn y DU, sy'n golygu nad oes ganddynt hawl i'r mwyafrif o fudd-daliadau lles, gan gynnwys cymorth incwm, budd-dal tai ac ystod o lwfansau a chredydau treth. Er enghraifft, gallai'r amod hwn gael ei gymhwyso i rywun y gwrthodwyd ei hawliad lloches, er y gallai fod yn bosibl iddynt gyflwyno tystiolaeth newydd i gefnogi eu hachos.

## Ein blaenoriaethau allweddol

1. **Gwireddu'r weledigaeth Cenedl Noddfa** trwy strategaeth newydd gydag amcanion clir, gweithredoedd, cyllideb bwrpasol, ymrwymïadau trawsadrannol, amserlenni a fframwaith monitro a gwerthuso cadarn.
2. Cyflwyno **ymrwymiad trawsbynciol ar fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus Cymru** i bawb sydd eu hangen, waeth beth yw eu statws mewnfudo.
3. Sicrhau **integreiddio o'r diwrnod cyntaf** trwy gyfeiriadedd, cymorth iaith, hyfforddiant a chymorth sydd wedi'i dargedu i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth.
4. Sicrhau **mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol**, gyda gwell cefnogaeth ddehongli a chymorth i oresgyn rhwystrau diwylliannol.
5. Gwella mynediad i addysg ar gyfer **plant a phobl ifanc sy'n fudwyr, ffoaduriaid neu sy'n ceisio lloches**, gan gynnwys cymorth ariannol sy'n gysylltiedig ag addysg, trafnidiaeth, prydau ysgol a gofal plant.
6. Datblygu **cefnogaeth effeithiol ar gyfer cyflogadwyedd a dilyniant** mewn cyflogaeth, trwy lwybrau gyrfa penodol i sectorau â blaenoriaeth, gwirfoddoli, sgiliau iaith cysylltiedig â gwaith a hyfforddiant arall.
7. **Sicrhau llety diogel ac urddasol i bawb**, gan gynnwys prosiectau i gefnogi a darparu cyngor i bobl sy'n ddigartref ac yn amddifad, gan ehangu'r gronfa o lety addas a sicrhau mynediad digidol i bobl mewn llety lloches.

# Y daith

## 1. Cyn cyrraedd

Mae gan Gymru hanes hir a balch o ryng-genedlaetholdeb a chroesawu pobl sy'n ceisio noddfa. Mewn cyd-destun byd-eang cynyddol ansefydlog, mae'n hanfodol bod Llywodraeth nesaf Cymru yn chwarae ei rhan fel Cymru gyfrifol yn fyd-eang ar lwyfan y byd, yn ogystal ag eiriol dros ddiwygiadau cadarnhaol i bolisi mewnfudo a lloches Llywodraeth y DU.

### Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Datblygu strategaeth Cenedl Noddfa newydd gyda chamau gweithredu clir, cyllideb benodol, ymrwymïadau trawsadrannol, amserlenni a fframwaith monitro a gwerthuso cadarn.
- Cyflwyno ymgyrch gyfathrebu gyhoeddus Cenedl Noddfa, i gyflwyno'r achos cadarnhaol dros groesawu pobl sy'n ceisio noddfa i Gymru, herio synïadau negyddol a dathlu cyfraniadau pobl sy'n ceisio noddfa.
- Parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol, Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru a Llywodraeth y DU i gymryd rhan mewn cynlluniau ailsefydlu ffoaduriaid.
- Cydweithio ag awdurdodau lleol i eirioli dros system wasgaru lloches decach sydd wedi'i hariannu'n gywir sy'n sicrhau lles pobl sy'n ceisio lloches ac yn cefnogi cymunedau i'w croesawu. Dylai hyn adlewyrchu'r gwersi o lwyddiannau'r cynlluniau ailsefydlu a gynlluniwyd.
- Ceisio creu Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder (SOL) ar gyfer Cymru, yn unol â'r Alban, i ganiatáu i Gymru ddiwallu ei hanghenion penodol ei hun o ran prinder gweithluoedd a chaniatáu i bobl sy'n ceisio lloches sy'n gymwys i gael rolau ar y Rhestr weithio wrth aros am ganlyniad eu cais am loches.
- Eirioli dros sefydlu a gwarchod llwybrau diogel i geisio noddfa ledled y byd, gan gynnwys aduniad teuluol.
- Herio polisïau amgylchedd gelyniaethus Llywodraeth y DU ac eirioli dros ddiwygiadau blaengar i'r system loches, gan gynnwys yr hawl i weithio i bobl sy'n ceisio lloches; cyfraddau cymorth lloches uwch; gwell penderfyniadau gan y Swyddfa Gartref a diwygio llety lloches a gwasgaru. Gwrthwynebu mesurau deddfwriaethol newydd sy'n cwtogi ymhellach ar hawliau pobl sy'n ceisio lloches.

## 2. Cyrraedd yng Nghymru

Bydd pobl sy'n ceisio noddfa yn cyrraedd Cymru trwy un o ddau lwybr: naill ai trwy gynlluniau ailsefydlu ffoaduriaid, neu wneud cais unigol i loches unwaith y byddant yn y DU. Bydd y ffordd y mae rhywun yn cyrraedd yn effeithio'n fawr ar eu profiad o fywyd yng Nghymru, mynediad at gefnogaeth a'r gallu i ddechrau bywyd newydd. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru wneud yr hyn a all i sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi, ac ymrwymo i'r egwyddor o 'integreiddio o'r diwrnod cyntaf' i bawb sy'n cyrraedd yma.

### Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Sicrhau cyfeiriadedd cychwynnol effeithiol wrth gyrraedd fel bod unigolion wedi'u paratoi'n well, yn deall eu hawliau ac yn gallu cyrchu gwasanaethau a chefnogaeth.
- Cyflwyno ymrwymiad trawsbynciol ar fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i bawb sydd eu hangen, waeth beth yw eu statws mewnfudo.
- Cynnal a chynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth ceiswyr lloches, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, eiriolaeth a gwasanaethau gwybodaeth.
- Ariannu gwersi Cymraeg a Saesneg am ddim i bawb sy'n ceisio noddfa, gan gynnwys dulliau digidol ac wyneb-yn-wyneb a chefnogaeth ddigonol i symud ymlaen i lefelau uwch. Cynnwys ymwybyddiaeth a chyfeiriadedd diwylliannol fel rhan o ddysgu iaith.
- Gwrthwynebu a herio'r defnydd o safleoedd anaddas ar gyfer llety cychwynnol i bobl sy'n ceisio lloches, fel barics y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhenalun.
- Sicrhau sgrinio ac atgyfeirio effeithiol ar gyfer pobl sydd newydd gyrraedd am wendidau gan gynnwys materion iechyd meddwl, trawma a chyflyrau iechyd sylfaenol.
- Sicrhau fod pawb sy'n ceisio noddfa wedi'u cofrestru gyda meddygon a deintyddion a'u bod yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni brechu.

## 3. Cyfnod yn y system loches

Gall y cyfnod yn y system loches fod yn brofiad digalon a thrallodus, gyda llawer o bobl yn aros misoedd neu flynyddoedd yn teimlo bod eu bywyd yn cael ei ddal yn ôl<sup>1</sup>. Wrth aros am benderfyniad, mae pobl sy'n ceisio lloches yn cael eu cartrefu mewn llety yn y Swyddfa Gartref, sydd yn aml o ansawdd gwael, ac yn cael lwfans o £5.66 y dydd i ddiwallu eu holl anghenion byw tra nad ydyn nhw'n cael gweithio heblaw mewn achosion eithriadol. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rym dros y system loches ei hun, mae yna gamau y gall eu cymryd i gefnogi pobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru wrth iddynt aros am ganlyniad ar eu cais.

## **Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:**

- Ceisio datganoli cyfrifoldeb a darpariaeth ar gyfer llety lloches, gwasgaru a chefnogaeth yng Nghymru, er mwyn sicrhau safonau uwch, gwell goruchwyliaeth ac i roi diwedd ar dai sy'n anniogel, yn anaddas ac yn aflan.
- Cael gwared ar rwystrau i gael mynediad at wasanaethau iechyd trwy wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff trwy hyfforddiant.
- Sicrhau bod pobl sy'n ceisio noddfa yn deall eu hawliau wrth gyrchu gwasanaethau, yn enwedig gofal iechyd.
- Datblygu ac ariannu gwasanaethau iechyd meddwl a thrawma arbenigol o ansawdd uchel, gan gynnwys sefydlu gwasanaeth i oroeswyr artaith.
- Cyflwyno mynediad am ddim i'r rhyngwyd mewn llety lloches.
- Ehangu ar docynnau consesiwn trafndiaeth gyhoeddus am ddim i bawb sy'n ceisio lloches a chael gwared ar unrhyw rwystrau rhag cyrchu tocynnau ar gyfer ffoaduriaid cymwys.
- Ehangu rhaglen WARD (Meddygon sy'n Ffoaduriaid ac sy'n Ceisio Lloches yng Nghymru<sup>1</sup>), sy'n cefnogi meddygon i ailhyfforddi tra'u bod yn aros am benderfyniad ar eu cais am loches, i broffesiynau eraill. Gallai hyn gynnwys rolau eraill yn y sector iechyd, adeiladu, addysgu, lletygarwch, TG, amaethyddiaeth a gwasanaethau dehongli a chyfieithu. Bydd hyn yn galluogi pobl sy'n ceisio lloches i gael eu profiad a chymwysterau blaenorol wedi'u cydnabod, ailhyfforddi a chofrestru gyda chyrrff proffesiynol er mwyn gweithio cyn gynted â phosibl.
- Darparu asesiadau sgiliau, arweiniad clir ar wirfoddoli a chyfeirio at gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli. Parhau i eiriol dros godi'r gwaharddiad ar weithio i bobl sy'n ceisio lloches.
- Sicrhau bod gan bawb fynediad at gyfieithiad cefnogol o ansawdd uchel wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus. Darparu hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth i gyfieithwyr.
- Gan adeiladu ar y fasnachfaint estynedig yn 2021 i breswylwyr sydd â chaniatâd i aros, estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cymru i bobl sy'n ceisio lloches.

## **4. Cyfnod yn y system loches: plant, pobl ifanc a grwpiau sy'n agored i niwed**

Gall y cyfnod yn y system loches fod yn arbennig o heriol i unigolion sydd ag anghenion ychwanegol a grwpiau mwy agored i niwed ac sydd ar yr ymylon, gan gynnwys plant a phobl ifanc, menywod, pobl LHDT+, pobl anabl a goroeswyr artaith, masnachu mewn pobl a

chaethwasiaeth. Mae angen i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru fod yn ymatebol i brofiadau'r grwpiau hyn a sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu eu hanghenion.

### **Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:**

- Ehangu cymhwysedd ar gyfer grantiau addysgol i blant a phobl ifanc sy'n fudwyr, ffoaduriaid ac sy'n ceisio lloches yng Nghymru, gan gynnwys unigolion sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys y Lwfans Cynnal a Chadw Addysg, y Gronfa Wrth Gefn Ariannol, Prydau Ysgol Am Ddim a'r Grant Datblygu Disgyblion.
- Ehangu'r ddarpariaeth o gynnig gofal plant am ddim y Llywodraeth i bob teulu, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio lloches a'r rheini heb hawl i gyllid cyhoeddus.
- Hepgor ffioedd am hyfforddiant uwch a thrydyddol i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches.
- Ehangu gwasanaethau eirioli i sicrhau bod gan bob plentyn mewn teuluoedd sy'n ceisio lloches hawl i eiriolwr annibynnol ac yn cael ei gefnogi trwy gyfranogiad gweithredol.
- Cynyddu'r gefnogaeth i Blant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain gan gynnwys mwy o adnoddau eirioli ar gyfer y rhai sy'n herio asesiadau oedran a rhaglen recriwtio a hyfforddi i oedolion priodol gymryd rhan yn annibynnol yn y broses asesu oedran.
- Rhoi arweiniad clir i ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc o gefndiroedd ffoaduriaid dan anfantais o ran mynediad i leoedd ysgol ac yn cael eu cefnogi os ydynt yn dechrau'r ysgol hanner ffordd trwy'r flwyddyn academiaidd.
- Cynyddu cyllid a gallu gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i gefnogi ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches, gan gynnwys ar gyfer goroeswyr artaith, masnachu mewn pobl a phlant a phobl ifanc.
- Sicrhau diogelu effeithiol ar y lefel strategol ac ymarferol, gyda gwell dealltwriaeth o bryderon diogelu grwpiau bregus a chanllawiau a phrosesau clir ar gyfer codi ac ymateb i bryderon.
- Archwilio'r potensial i ddarparu tai diogel i bobl sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid LHDT+.

### **5. Gwrthod ceisiadau lloches**

Gwrthodir cais rhai pobl am loches gan y Swyddfa Gartref, ac mae llawer wedi hynny yn wynebu digartrefedd, amddifadedd a bregusrwydd i gael eu hecsbloetio, gyda mynediad cyfyngedig i arian cyhoeddus yn golygu na allant gael mynediad at wasanaethau na chymorth. Dangoswyd dro ar ôl tro bod penderfyniadau'r Swyddfa Gartref o ansawdd gwael, ac mae llawer o bobl y gwrthodwyd lloches iddynt yn mynd ymlaen i apelio ac yn cael caniatâd i aros; mae



ffigurau diweddar y Swyddfa Gartref yn dangos bod 44% o apelïadau lloches yn cael eu caniatáu<sup>2</sup>. Y gwir amdani yw na fydd yn ddiogel nac yn ymarferol iddynt ddychwelyd i'w gwlad wreiddiol, a dylai pawb sydd yn y sefyllfa hon gael mynediad at gyngor a gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel i wrthsefyll bygythiad digartrefedd ac amddifadedd a dianc rhag sefyllfaoedd ymosodol.

### **Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:**

- Ymrwymo i gael cyllid hirdymor pellach i gyflawni argymhellion adroddiad dichonoldeb Llywodraeth Cymru ar gynyddu llety a gwasanaethau cymorth i bobl y gwrthodwyd lloches iddynt, gan gynnwys fel yr argymhellwyd y tu hwnt i'r ddwy flynedd gychwynnol1.
- Sicrhau nad yw'r amod Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus yn rhwystr i unrhyw un sydd angen cyrchu gwasanaethau lloches neu gam-drin domestig arbenigol.
- Ariannu prydau ysgol am ddim i blant o deuluoedd ar gefnogaeth adran 41 a'r rheini heb hawl i gyllid cyhoeddus, gan gynnwys y rhai y gwrthodwyd lloches iddynt.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod yr unigolion amddifad mwyaf agored i niwed yn cael eu cefnogi, gan gynnwys trwy arweiniad a chyllid cenedlaethol newydd clir.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o gynghorwyr cyfreithiol a ariennir gan gymorth sy'n gallu cefnogi unigolion sydd â chais lloches a wrthodwyd i herio'r gwrthodiadau hynny a sicrhau bod pobl yn cael eu cynrychioli'n iawn, gyda chefnogaeth ddigonol ar gyfer cyflwyno cais newydd.
- Eirioli dros estyn y cyfnod cyfredol o 14 diwrnod ar gyfer apelio yn erbyn cais am loches a wrthodwyd a'r cyfnod symud ymlaen 21 diwrnod i'r rheini nad oes ganddynt unrhyw hawliau apelio pellach.

### **6. Derbyn statws ffoadur**

Ar ôl i unigolyn gael cais am loches wedi'i gymeradwyo, mae'n cael ei gydnabod gan Lywodraeth y DU fel ffoadur, mae'n rhydd i ymgartrefu yn y DU ac mewn theori mae'n gallu cyrchu'r un gwasanaethau a buddion â phawb arall. Mewn gwirionedd gall y cyfnod cychwynnol hwn fod yn amser cythryblus iawn, gyda phobl yn cael dim ond 28 diwrnod i sicrhau tai, cyflogaeth a mynediad at fudd-daliadau. Byddai ffoaduriaid sydd newydd eu cydnabod yn elwa o gyngor a chefnogaeth bellach i'w galluogi i sefydlu bywyd newydd yng Nghymru.

### **Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:**

- Parhau i ariannu ac ehangu gwasanaethau cymorth symud ymlaen i helpu ffoaduriaid sydd newydd eu cydnabod i gael mynediad at dai, cyflogaeth a budd-daliadau.
- Archwilio a gweithredu darpariaeth dai amgen ar gyfer ffoaduriaid newydd eu cydnabod i'w hamddiffyn rhag digartrefedd.
- Archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu'r cyfnod symud ymlaen i 56 diwrnod yn unol â Deddf Tai 2014, gan gynnwys opsiynau ar gyfer parhau i ariannu llety lloches am 28 diwrnod ychwanegol i roi hyd priodol i awdurdodau lleol ac unigolion sicrhau llety arall.
- Gweithio gyda darparwyr tai ac awdurdodau lleol i wella mynediad ffoaduriaid i dai, gan gynnwys ehangu'r angen blaenoriaethol i bob ffoadur newydd.
- Cyflwyno hyfforddiant ar gyfer staff darparu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ar hawliau a hawliau ffoaduriaid a mudwyr i wasanaethau cyhoeddus.

## **7. Bywyd newydd yng Nghymru**

Mae ffoaduriaid a mudwyr o bob cwr o'r byd wedi gwneud cyfraniadau mawr i gymdeithas Cymru, gan weithio ym maes gwasanaethau cyhoeddus, adeiladu busnesau, cychwyn teuluoedd a chefnogi eraill yn eu cymunedau. Fodd bynnag, nid yw'r llwybr tuag at ddechrau bywyd newydd bob amser yn syml, ac mae llawer o ffoaduriaid yn parhau i wynebu rhwystrau i ddinasyddiaeth, cyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â gwahaniaethu a gelyniaeth ymhell ar ôl iddynt ymgartrefu yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod pawb sy'n galw Cymru yn gartref, beth bynnag eu cefndir, yn cael eu cynnwys, eu cefnogi a'u galluogi i gyfrannu at orau eu gallu.

### **Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:**

- Gweithredu strategaeth cymorth cyflogaeth gyfannol ar gyfer pobl sy'n ceisio noddfa, gyda llwybrau gyrfa ar gyfer sectorau allweddol, gan gynnwys mynediad cychwynnol i waith a dilyniant swydd, gyda chydabyddiaeth o gymwysterau a dysgu blaenorol a chymau i gofrestru proffesiynol. Dylai hyn adeiladu ar ehangu rhaglen WARD a thynnu ar adroddiadau Sgiliau a Chyflogaeth ac AilGychwyn Llywodraeth Cymru.
- Gwerthuso'r rhaglen cymorth cyflogaeth AilGychwyn ar gyfer ffoaduriaid a cheisio gwneud gwelliannau ar gyfer rownd newydd o'r rhaglen.
- Darparu cefnogaeth wedi'i thargedu'n well i hyrwyddo hunangyflogaeth a helpu busnesau a arweinir gan ffoaduriaid i gychwyn a thyfu.
- Ymgysylltu â chymunedau gwasgar i lywio gwaith datblygu rhyngwladol Cymru yn well.

- Sicrhau nad yw'r polisi 'Hawl i Rentu' sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid wirio statws mewnfudo tenantiaid, ac a ganfuwyd i wahaniaethu ar sail hil gan yr Uchel Lys, yn cael ei weithredu yng Nghymru.
- Buddsoddi mewn gwybodaeth gyhoeddus a rhaglenni yn y gymuned i gynyddu cofrestriad a nifer y pleidleiswyr ymhlith cymunedau mudol a Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig y rhai a fydd newydd eu rhyddfrenio yn etholiad 2021.
- Gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â throseddau casineb a chynnwys cymunedau mudol mewn gwaith i fynd i'r afael â hiliaeth.
- Cyfathrebu'n glir na fydd cyrff cyhoeddus Cymru yn rhannu data gyda'r Swyddfa Gartref at ddibenion gorfodi mewnfudo.
- Cefnogi grwpiau cymunedol lleol a phrosiectau cyfeillio sy'n ymgymryd â gwaith i groesawu pobl sy'n ceisio noddfa, hwyluso cyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol a chynyddu cydlyniant cymdeithasol. Ceisio dysgu gwersi o'r prosiectau hyn i gryfhau'r gwaith presennol ar gydlyniant cymunedol mewn partneriaeth â gwasanaethau lleol.
- Ariannu a gweithio'n agos gyda grwpiau eiriolaeth ar gyfer pobl sy'n ceisio noddfa, i'w galluogi i godi materion sy'n effeithio arnynt, gwella gwasanaethau a chynyddu dealltwriaeth o'u profiadau.

## **Cydnabyddiaeth**

Diolch i bawb a helpodd i ddatblygu'r maniffesto hwn, gan gynnwys y llu o unigolion sydd â phrofiad o geisio noddfa eu hunain a rannodd eu syniadau a'u profiadau gyda ni.

## **Nodyn ar Gynghrair Ffoaduriaid Cymru**

Rhwydwaith o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd ledled Cymru er budd pobl sy'n ceisio noddfa a'r cymunedau sy'n eu croesawu yw Cynghrair Ffoaduriaid Cymru. Ein nod yw sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio i'r eithaf ac i siarad â llais cadarnhaol ac unedig ar bolisïau ac arferion sy'n effeithio ar bobl sy'n ceisio noddfa.

Os hoffech chi ddysgu mwy am ein gwaith neu ymuno â'r Gynghrair, cysylltwch â ni trwy e-bost ar [coalition@wrc.wales](mailto:coalition@wrc.wales)

**Twitter:** [@RefugeeWelsh](https://twitter.com/RefugeeWelsh)

**Facebook:** [@nationofsanctuary](https://www.facebook.com/nationofsanctuary)

**Gwefan:** <https://wales.cityofsanctuary.org/cy/welsh-refugee-coalition>